Hyrwyddo Sgrinio

Cynnwys y cyhoedd
taflen wybodaeth am

eich rhoi chi yng nghanol gweithgareddau sy'n hyrwyddo sgrinio

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Eich rhoi chi yng nghanol gweithgareddau sy'n hyrwyddo sgrinio

Beth mae cynnwys y cyhoedd yn ei olygu?

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n gyfrifol am raglenni sgrinio'r fron, gwddf y groth a'r coluddyn, yn cydnabod gwerth yr holl wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd gan y cyhoedd i'w cynnig.

Mae'r cyhoedd yn gallu chwarae rhan bwysig yn y broses o wella gwasanaethau. Maen nhw'n gallu dylanwadu ar bolisïau a dulliau gweithredu mudiadau, a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Rydyn ni hefyd yn gallu defnyddio profiadau pobl fel sail i'r gwaith o roi gwybod i'r cyhoedd sut i fynd at raglen sgrinio.

Gallwch chi gyfrannu at weithgareddau hyrwyddo sgrinio mewn nifer o wahanol ffyrdd. Os ydych chi eisiau bod yn rhan, llenwch y ffurflen sy'n rhan o'r daflen yma a'i hanfon i'r cyfeiriad sydd ar y cefn. Bydd un o'n Swyddogion Hyrwyddo Sgrinio rhanbarthol yn cysylltu â chi.

Sut galla' i gyfrannu?

Eich straeon

Oes gennych chi stori am eich profiad chi o gael eich sgrinio? Rydyn ni eisiau clywed am eich profiadau da – ac am y rhai drwg. Mae hyn yn gallu ein helpu ni i wella holl wasanaethau'r Adran Sgrinio a helpu pobl i benderfynu ydyn nhw'n awyddus i gymryd rhan mewn rhaglen sgrinio neu beidio. Byddwn ni'n defnyddio'r straeon yma yn y cyfryngau, yn eu cynnwys ar y wefan ac yn eu defnyddio wrth hyfforddi staff.

Grwpiau ffocws

O dro i dro rydyn ni'n gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ddod i 'grwpiau ffocws defnyddwyr gwasanaethau'. Rydyn ni eisiau i aelodau'r cyhoedd fod yng rhan ganolog o unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar y gwasanaethau y byddan nhw'n eu cael. Mae grwpiau ffocws blaenorol wedi edrych ar daflenni gwybodaeth, gwefannau a dyluniad logos.

Arolygon

Trwy ddefnyddio holiaduron ac arolygon ar-lein ein nod yw casglu llawer o wybodaeth a sylwadau am wasanaethau'r mudiad. Er enghraifft, mae arolygon wedi bod yn gyfle i ni werthuso taflenni gwybodaeth a phrofiad menywod o gael sgrinio'u bronnau.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Llenwch y ffurflen sydd ar y dudalen nesaf a'i hanfon yn ôl aton ni. Yna bydd un o'n Swyddogion Hyrwyddo Sgrinio'n eich ffonio am sgwrs anffurfiol i holi ym mha ffordd rydych chi'n awyddus i gyfrannu.

Byddwn ni wedyn yn cadw'ch manylion mewn cronfa gyfrinachol o enwau pobl sy'n fodlon helpu i hyrwyddo sgrinio.

Byddwn ni'n cysylltu â chi cyn gynted ag y bydd cyfle'n codi i chi gymryd rhan.

Byddwn ni'n talu'ch costau llawn am deithio i'r gweithgareddau yma.

Gallwch chi dynnu'n ôl o'r rhaglen a thynnu'ch enw o'r gronfa ddata ar unrhyw bryd.

Cysylltwch â'r Swyddog Hyrwyddo Sgrinio yn eich rhanbarth i ofyn am fwy o wybodaeth.

Rhifau ffôn:

Gogledd Cymru a'r Canolbarth
01492 863541

De-ddwyrain Cymru
029 2078 7829

De-orllewin Cymru
01792 459988

E-bost:
E-bostiwch yr Ysgrifenyddes Hyrwyddo Sgrinio
anna.henwood@wales.nhs.uk

Neu postiwch lythyr at:
Adran Hyrwyddo Sgrinio
Bron Brawf Cymru
Ffordd Maesdu
Llandudno
Conwy
LL30 1QZ

Bowel Screening Wales
Sgrinio Coluddion Cymru

Bron Brawf Cymru
Breast Test Wales

Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Hyrwyddo Sgrinio: Cynnwys y Cyhoedd

Os ydych chi'n awyddus i fod yn rhan o weithgareddau hyrwyddo sgrinio, rhowch eich manylion isod. Rhowch y ffurflen i aelod o staff yr Adran Sgrinio neu anfonwch hi i'r cyfeiriad ar y dudalen nesaf. Bydd un o'n Swyddogion Hyrwyddo Sgrinio'n cysylltu â chi'n fuan.

Enw: ..... Rhif ffôn: ..... E-bost: .....

Cyfeiriad: .....

How would you like to be involved? Please tick.

Eich straeon: ☐ Grwpiau ffocws: ☐ Arolygon: ☐